

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

12/02/2014

Annwyl Brif Weinidog,

Yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg ar bresgripsiwn yng Nghymru

Yn dilyn eich llythyr ataf, dyddiedig 13 Cymru 2014, parthed y Gymraeg ar bresgripsiwn, dyma fy argymhellion i Weinidogion Cymru o dan fy swyddogaethau yn Rhan 2, Adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r argymhellion wedi eu cyfyngu i edrych ar fater y cyfarwyddyd i'r claf yn unig, ac nid unrhyw agwedd arall (e.e. disgrifiad y cyffur). Yn benodol, ystyrir y neges oddi wrth y meddyg i'r claf (neu rieni/ofalwyr y claf), y mae gofyn i'r fferylllydd ei gopïo'n gywir ar y label.

Byddwch yn cofio achos yn ddiweddar lle bu'n rhaid i glaf aros am gyfieithiad i bresgripsiwn cyn derbyn y moddion oedd wedi ei ysgrifennu ar bresgripsiwn. Roedd y cyfarwyddiadau ar gymryd y moddion yn Gymraeg yn unig.

O ganlyniad i glywed am yr achos, gofynnais drwy lythyr¹ am gyfarfod gyda'r Gweinidog â chyfrifoldeb dros lechyd a Gofal er mwyn darparu argymhellion iddo ynghylch dilysrwydd a'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn unig ar bresgripsiwn ac ar labeli cyfarwyddiadau i gleifion. Ysgrifennais at rieni'r claf a dderbyniodd y presgripsiwn dan sylw ac at y meddyg teulu a ysgrifennodd y presgripsiwn. Cytunais hefyd i gwrdd â Phrif Weithredwr yr archfarchnad Morrisons, lleoliad y fferyllfa dan sylw.

¹ Dyddiedig 10 Ionawr 2014 at yr Athro Mark Drakeford AC

Yn ogystal, mae fy swyddogion wedi bod mewn trafodaethau gyda chyrff sy'n cynrychioli gweithwyr proffesiynol y maes yng Nghymru er mwyn ystyried dilysrwydd defnyddio'r Gymraeg yng Nghymru. Tu hwnt i hynny, ac yn rhannol mewn ymateb i'ch gohebiaeth dyddiedig 13 Ionawr 2014, gwnaed ymchwil pen desg manwl er mwyn cael darlun cyflawn a chywir o'r arfer a'r hyn ddywed canllawiau perthnasol. Edrychwyd hefyd ar enghreifftiau o'r hyn sy'n digwydd ar draws y byd wrth gynhyrchu presgripsiynau dwyieithog.

Mae'n bwysig rhoi sylw i'r ddeddfwriaeth a'r cyfarwyddiadau sy'n gysylltiedig â pharatoi presgripsiwn. Y ddeddfwriaeth sy'n rheoli presgripsiynau yw Rheoliadau 217 hyd 219 yr Human Medicines Regulations 2012. Effaith y rheoliadau hyn yw pennu'r hyn sy'n gwneud presgripsiwn dilys. Nid yw'r rheoliadau yn sôn am iaith presgripsiwn. O dan adran 45 yr Health and Social Care (Community Health and Standards) Act 2003, mae dyletswydd ar bob corff GIG yng Nghymru *"to put and keep in place arrangements for the purpose of monitoring and improving the quality of health care provided by and for that body."* Fe ddatblygodd Llywodraeth Cynulliad Cymru (rhagflaenydd Llywodraeth Cymru) safonau statudol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru o dan adran 47 yr un ddeddf. Dan adran 47(4) rhaid i bob corff gwasanaeth iechyd yng Nghymru wrth gyflawni ei ddyletswydd ystyried y safonau hynny. Ymysg y rhain, mae safonau sy'n ymwneud â chyflenwi moddion drwy bresgripsiwn, ond does dim cyfeiriad at iaith y cyfarwyddyd i'r claf.

Yn sgil fy ymchwiliad i'r mater, mae fy nghanfyddiadau fel a ganlyn:

Nid oes deddf sy'n pennu na ellir defnyddio'r Gymraeg ar gyfer ysgrifennu cyfarwyddyd i'r claf. Felly nid yw'n anghyfreithlon i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ysgrifennu cyfarwyddyd i'r claf. Nid oes chwaith seiliau statudol i'r hyn ddywed y BNF na'r *All Wales Prescription Writing Standards (AWPWS)*² am ddefnyddio Saesneg. Serch hynny, ystyrir dilyn y BNF a'r AWPWS yn arfer gorau gan y proffesiynau meddygol.

Mae canllawiau'r BNF yn benodol yn rhagweld y posibilrwydd y defnyddir iaith heblaw Saesneg wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau i'r claf. Mae'r un peth yn wir am ganllawiau NICE, sy'n weithredol yn y gwasanaeth iechyd yn Lloegr. Mae'r AWPWS yn fwy caeth, gan ddatgan y dylid defnyddio³ Saesneg. Dylai Gweinidogion Cymru ddiwygio'r AWPWS ac i ddylanwadu ar ganllawiau'r BNF, er mwyn i'r Gymraeg gael ei defnyddio ar bresgripsiynau.

² Mae'r AWPWS yn cyfateb i ganllawiau NICE yng Nghymru. Paratowyd yr AWPWS gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (GSMCG). Sefydlwyd y GSMCG yn 2002 dan Adran 6 National Health Service Act 1977 er mwyn darparu cyngor ar reoli a rhagnodi meddyginiaethau i'r Cynulliad Cenedlaethol (fel yr oedd ar y pryd). Mae logo GIG Cymru wedi'i leoli ar ben yr AWPWS.

³ "Directions should be in English..."

Ymddengys bod y canllawiau ar gyfer fferyllwyr yn datgan yn eglur y dylid cysylltu â'r meddyg os nad yw'r fferylllydd yn deall y cyfarwyddyd i'r claf.

Canfuwyd bod meddalwedd sy'n cynhyrchu presgripsiynau o restr cof y feddalwedd yn bodoli ac yn cael ei defnyddio yng Nghymru, ond bod y feddalwedd hon ond ar gael yn Saesneg.

Mae Rhan 1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cadarnhau na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Argymhellir i Weinidogion Cymru o dan Ran 2, Adran 4 y Mesur gymryd y camau canlynol:

Argymhelliad 1

Gofyn i gynrychiolaeth Llywodraeth Cymru ar Bwyllgor cyhoeddi'r British National Formulary⁴ (BNF) i hysbysu'r BNF o'r angen i adolygu a diwygio canllawiau⁵ fel eu bod yn adlewyrchu statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru ac fel na chyfyngir ar y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg sy'n groes i Ran 6 y Mesur. Awgrymir mewnosod y geiriau canlynol yn Adran 9 canllawiau ysgrifennu presgripsiwn: *"...directions should preferably be in English or, in Wales, in Welsh or bilingually without abbreviation. Latin abbreviations may be used..."*

Argymhelliad 2

Awgrymir mewnosod y geiriau canlynol yn Adran 6 canllawiau presgripsiynau a gynhyrchir gan gyfrifiadur: *"...prescription must be printed in English or, in Wales, in Welsh or bilingually with directions in Welsh or bilingually without abbreviation."*

Argymhelliad 3

Sicrhau bod systemau technoleg gwybodaeth sy'n cynhyrchu presgripsiwn yn caniatáu rhagnodi yn Gymraeg. Byddai hyn yn galluogi gweithwyr proffesiynol sy'n cynhyrchu presgripsiynau i ddiwallu anghenion ieithyddol cleifion yng Nghymru ac adlewyrchu statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru.

⁴ www.bnf.org The BNF is a joint publication of the British Medical Association and the Royal Pharmaceutical Society. It is published biannually under the authority of a Joint Formulary Committee which comprises representatives of the two professional bodies, the UK Health Departments, the Medicines and Healthcare products Regulatory Agency, and a national guideline producer. ⁵ *"...directions should preferably be in English..."*

04/04

Tynnaf eich sylw at swyddogaeth Gweinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i argymhellion Comisiynydd y Gymraeg wrth arfer unrhyw swyddogaeth y mae'n ymwneud ag ef dan Ran 2 Adran 4 y Mesur.

Edrychaf ymlaen at glywed wrthyhch.

Yn gywir

Meri Huws

Comisiynydd y Gymraeg

Copi at:

Yr Athro Mark Drakeford AC, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Yr Athro Roger Walker, Prif Swyddog Fferyllol Cymru

Dr Ruth Hussey OBE, Prif Swyddog Meddygol Cymru

[Swyddog 1 - Hepgorwyd yr wybodaeth - adran 40(2) Deddf Rhyddid

Gwybodaeth], [Teitl swydd Swyddog 1 - Hepgorwyd yr wybodaeth - adran 40(2)

Deddf Rhyddid Gwybodaeth], Llywodraeth Cymru

[Swyddog 2 - Hepgorwyd yr wybodaeth – adran 40(2) Deddf Rhyddid

Gwybodaeth], [Teitl swydd Swyddog 2 - Hepgorwyd yr wybodaeth - adran 40(2)

Deddf Rhyddid Gwybodaeth], Llywodraeth Cymru

[Swyddog 3 - Hepgorwyd yr wybodaeth - adran 40(2) Deddf Rhyddid

Gwybodaeth], [Teitl swydd Swyddog 3 - Hepgorwyd yr wybodaeth - adran 40(2)

Deddf Rhyddid Gwybodaeth], Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru